

Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 3) ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Tachwedd 2022

Ar 15 Tachwedd 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Rhif 3) ar y Bil Diogelwch Ar-lein.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 16 Chwefror 2023.

